

Arolygiad o Ddarparwr Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd) Physical Graffiti

Dyddiad arolygu: 26 Gorffennaf 2016

Dyddiad cyhoeddi: 27 Hydref 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	3
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Ansawdd profiad y claf	6
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	9
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	12
6.	Y Camau Nesaf.....	14
	Atodiad A.....	15

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Prif ddiben AGIC yw:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a sefydlu sut mae gwasanaethau'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.¹

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau yn dilyn arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol. Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol, ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu o dan dair thema:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.

¹ Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da. <http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd>

2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, rydym yn casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff (lle bo hyn yn briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau (lle y bo'n briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, ei ganllaw i gleifion, a'i wefan (lle bo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd cyn yr arolygiad.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiad drwy gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.² Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw welliannau eraill sydd eu hangen, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau'n cynnig cipolwg o ba mor dda mae gwasanaethau yn bodloni safonau a rheoliadau hanfodol o ran diogelwch ac ansawdd ar ddiwrnod yr arolygiad.

² Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gyflwyno mewn achos lle mae diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau gwael a methiannau systemig. Achosion o'r fath fydd rhai lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses cydymffurfiaeth AGIC ar gael ar gais.

3. Cyd-destun

Mae Physical Graffiti wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol am ei fod yn darparu triniaethau laser Dosbarth 3B/4 yn 124 City Road, Caerdydd, CF24 3DQ. Cofrestrwyd y gwasanaeth gydag AGIC yn gyntaf yn 2014.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y tîm staff yn cynnwys y rheolwr cofrestredig ac un gweithredwr laser. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol i gleifion dros 18 mlwydd oed:

System laser Nd: YAG Q-Switched ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu tatŵs.

4. Crynodeb

Gwnaethom edrych ar sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth
- Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion
- Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn fodlon ar eu triniaeth ac ar y gwasanaeth a ddarperir.

Gwelsom fod angen i'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddariadau i'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben
- Cofnodi triniaethau cleifion
- Trefniadau i ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed
- Roedd angen hyfforddiant diweddarau mewn diogelwch laser
- Trefniadau ar gyfer diogelwch tân
- Diweddariadau i bolisïau a gweithdrefnau
- Cwblhau arfarniadau blynyddol.

Nodir manylion pellach ynglŷn â'r gwelliannau hyn yn Atodiad A.

O ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn, mae angen gwella o ran y trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu ar gyfer y gwasanaeth hwn i sicrhau cydymffurfiad â'r rheoliadau a safonau perthnasol. Mae hyn yn bwysig i sicrhau diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir.

Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, mae disgwyl i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau ystyrion i roi sylw i'r materion hyn. Gallai methu â gwneud hynny arwain at gamau gweithredu gan AGIC am ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau.

5. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Gwybodaeth a chaniatâd cleifion (Safon 9)

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod cleifion yn derbyn digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth. Mae hyn oherwydd bod cleifion yn cael ymgynghoriad llafar cyn triniaeth, a oedd yn cynnwys trafodaeth am y risgiau a'r buddiannau. Gofynnwyd i gleifion hefyd roi caniatâd ysgrifenedig ar gyfer y driniaeth, a gwelsom dystiolaeth o ganllawiau gofal dilynol a roddwyd i gleifion. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi nad oedd y ffurflenni cydsyniad gwybodus yn cael eu llofnodi gan y claf bob amser.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod cleifion yn llofnodi pob ffurflen cydsyniad gwybodus.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gofyn i gleifion gwblhau rhestr wirio hanes meddygol. Gwelsom fod gan bob claf gofnod triniaeth, ond nid oedd yn cynnwys lle ar gyfer manylion canlyniadau triniaethau ac unrhyw effeithiau niweidiol. Gwnaethom argymhell hefyd y dylai'r gwasanaeth greu cofrestr o driniaethau, er mwyn i bob triniaeth a ddarperir ar y peiriant laser gael ei chofnodi mewn un man y gellir ei archwilio'n hawdd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid creu cofrestr o driniaethau, gan gynnwys manylion yr holl driniaethau a gyflawnwyd. Dylid cofnodi canlyniadau triniaethau, gan gynnwys unrhyw effeithiau niweidiol.

Cyfathrebu'n effeithiol (Safon 18)

Roedd canllawiau i gleifion ar gael, ond roedd angen cyflawni'r diweddariadau canlynol yn unol â'r rheoliadau:

- Rhaid diweddarau manylion yr offer laser a ddefnyddir
- Dylid disodli cyfeiriadau at y 'Comisiwn Gofal Iechyd' gydag AGIC
- Dylid diweddarau manylion ynghylch sut y gall cleifion gyrchu adroddiad arolygu mwyaf diweddar AGIC (e.e. drwy gynnwys cyfeiriad gwefan AGIC)

- Dylid cynnwys trefniadau ar gyfer cael cydsyniad cleifion
- Rhaid diweddarau manylion cyswllt AGIC
- Dylai'r amserlen ar gyfer cydnabod derbyn cwynion fod yn gyson â'r datganiad o ddiben a'r polisi cwynion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid diweddarau'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau.

Gwelsom fod datganiad o ddiben ar gael ond roedd angen ei ddiweddarau i gydymffurfio â'r rheoliadau, gan gynnwys:

- Dylid disodli cyfeiriadau at Reoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 gyda Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011
- Dylid diweddarau cymwysterau a phrofiad perthnasol y gweithredwr laser, gan gynnwys hyfforddiant Craidd Gwybodaeth³
- Dylid cynnwys manylion gwneuthuriad a model y peiriant laser, y mathau o driniaethau a ddarperir, ac ystod oedran y cleifion
- Rhaid diweddarau manylion cyswllt AGIC.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid diweddarau'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau.

Rhaid anfon copi o'r datganiad o ddiben wedi ei ddiweddarau at AGIC.

Ymgysylltu â dinasyddion a chael adborth (Safon 5)

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r clinig ddosbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael barn cleifion am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd pedwar o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Roedd yr holiaduron yn dangos bod yr holl gleifion yn cytuno'n gryf â datganiadau bod y clinig yn lân a thaclus, a bod y staff yn gwrtais, yn ofalgar, yn gwranddo, ac yn darparu digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd yr holl gleifion fod eu gofal a thriniaeth yn 'rhagorol'.

³Bwriedir hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ar gyfer gweithredwyr sy'n defnyddio systemau laserau a golau pwls dwys ar gyfer triniaethau croen amrywiol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth ac arweiniad ar ddefnyddio systemau golau pwls dwys a laserau'n ddiogel.

Dyweddod y staff wrthym eu bod yn annog cleifion i roi adborth ar lafar iddynt ac y byddant yn eu holi am eu profiadau y tro nesaf iddynt ddod am driniaeth. Fodd bynnag, nid oedd gan y gwasanaeth system ffurfiol ar gyfer ceisio adborth gan y cleifion yn rheolaidd, fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid cael system ar waith i geisio adborth gan y cleifion yn rheolaidd.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol (Safon 7) a dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol (Safon 16)

Esboniodd y rheolwr cofrestredig mai dim ond y gweithredwr laser oedd yn darparu triniaethau laser i gleifion. Gwelsom dystysgrif i ddangos bod y gweithredwr laser wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth. Fodd bynnag, gan fod yr hyfforddiant hwn wedi'i gynnal dros dair blynedd yn ôl, roedd angen hyfforddiant diweddarau. Er i ni gael ein sicrhau bod y gweithredwr laser wedi derbyn hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriant laser yn ddiogel, nid oedd cofnod o'r hyfforddiant hwn ar gael. Esboniodd y staff nad oedd gwneuthurwr y peiriant wedi darparu tystysgrif ar gyfer yr hyfforddiant hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r gweithredwr laser gwblhau hyfforddiant diweddarau Craidd Gwybodaeth.

Rhaid cynnal yr holl gofnodion hyfforddiant, gan gynnwys unrhyw hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriant.

Gwelsom fod contract cyfredol ar waith gyda chynghorydd diogelu rhag laserau a rheolau lleol gyda manylion ynglŷn â sut i weithredu'r peiriant yn ddiogel. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y cynghorydd diogelu rhag laserau'n ymweld â'r gwasanaeth bob blwyddyn ac yn adolygu'r rheolau lleol a'r asesiadau risg amgylcheddol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig o ymweliad y cynghorydd diogelu rhag laserau ac nid oedd y dyddiadau a'r llofnodion ar y rheolau lleol ac asesiadau risg wedi cael eu diweddarau i ddangos pryd y cawsant eu hadolygu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid cael tystiolaeth bod y rheolau lleol a'r asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan y cynghorydd diogelu rhag laserau. Yn benodol, dylai'r rhain gael eu llofnodi a'u dyddio bob tro y cânt eu hadolygu.

Esboniodd y rheolwr cofrestredig fod y peiriant laser yn newydd a'i fod i fod i gael ei wasanaethu am y tro cyntaf eleni. Gwnaethom gynghori'r gwasanaeth i sicrhau bod holl gofnodion gosod a gwasanaethu'r peiriant yn cael eu cynnal yn y dyfodol.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu llygaid ar gael i gleifion a'r gweithredwr laser. Roedd y cyfarpar diogelu llygaid mewn cyflwr addas yn ôl pob golwg. Roedd arwydd y tu allan i'r ystafell driniaeth i rybuddio pobl bod y peiriant yn cael ei ddefnyddio. Cadarnhaodd

y gweithredwr laser fod drysau'r ystafell driniaeth ar glo pan oedd yn cael ei defnyddio, er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Gwelsom fod trefniadau ar waith i storio'r allweddi ar gyfer gweithredu'r peiriant laser yn ddiogel pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio.

Diogelu plant ac oedolion agored i niwed (Safon 11)

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion dros 18 mlwydd oed yn unig. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn.

Gwelsom fod angen diweddariadau i'r polisi diogelu i ddarparu gweithdrefn eglur i staff yn y gwasanaeth ei dilyn pe byddai pryder yn ymwneud â diogelwch, gan gynnwys manylion pwy i gysylltu â nhw'n lleol. Roedd angen i'r rheolwr cofrestredig a'r gweithredwr laser gwblhau hyfforddiant diogelu hefyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid cael prosesau cadarn ar waith er mwyn sicrhau lles a diogelwch oedolion sy'n agored i niwed a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys diweddaru polisiau diogelu a chwblhau hyfforddiant diogelu gan y rheolwr cofrestredig a'r gweithredwr laser.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio (Safon 13)

Gwelsom fod y gwasanaeth yn lân ac yn daclus. Gwnaethom drafod y trefniadau rheoli heintiau oedd ar waith gyda'r gweithredwr laser ac roeddem o'r farn eu bod yn briodol ar gyfer amddiffyn cleifion rhag croes-heintio. Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, ond gwnaethom gynghori'r gwasanaeth i adolygu hwn yn ofalus i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch (Safon 22)

Gwelsom dystiolaeth bod profion offer cludadwy wedi cael eu cynnal yn ddiweddar, i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod gwiriad o wifrau trydanol yr adeilad wedi cael ei gynnal o fewn y pum mlynedd diwethaf. Gwnaethom sylwi bod y gwiriad gwifrau trydanol yn cynnwys argymhelliad i gynnal gwiriad pellach eleni a gwnaethom dynnu sylw'r rheolwr cofrestredig at hyn.

Gwnaethom edrych ar rai o'r trefniadau ar gyfer diogelwch tân. Roedd labeli gwasanaethu ar y diffoddwyr tân yn dangos eu bod yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod asesiad risg tân wedi cael ei gynnal beth amser yn ôl ond cydnabu fod angen iddo gael ei adolygu. Roedd y gwasanaeth wedi ei leoli dros sawl llawr ac nid oedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd

tân o'r lloriau uchaf. Gwnaethom argymell y dylai'r gwasanaeth geisio cyngor gan arbenigwr diogelwch tân ynglŷn â hyn. Roedd angen cynnal ymarferion tân hefyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid cael trefniadau cadarn ar waith ar gyfer diogelwch tân, gan gynnwys asesiad risg tân cyfredol, ystyried arwyddion allanfeydd tân, a chwblhau ymarferion tân.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd (Safon 1)

Y rheolwr cofrestredig sy'n cynnal Physical Graffiti Cardiff. Darperir triniaethau laser gan y gweithredwr laser.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith yn y gwasanaeth. Esboniodd y rheolwr cofrestredig eu bod wedi defnyddio cwmni allanol i'w cynorthwyo gyda dogfennau a pholisïau'n ymwneud â'r peiriant laser. Gwnaethom sylwi bod rhai o'r polisïau'n cyfeirio at Reoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002, sydd wedi cael eu disodli gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Gwnaethom sylwi bod angen adolygu'r polisïau yn awr, gan eu bod wedi cael eu creu nifer o flynyddoedd yn ôl. Roedd angen teilwra'r sampl o bolisïau a welsom, ble y bo'n briodol, i'w defnyddio yn y gwasanaeth. Gwnaethom atgoffa'r rheolwr cofrestredig am ei gyfrifoldeb dan y rheoliadau i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau digonol ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen y gwelliannau canlynol i bolisïau a gweithdrefnau:

- ***Dylid adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau***
- ***Dylid teilwra polisïau ble y bo'n briodol i'w defnyddio yn y gwasanaeth***
- ***Rhaid cywiro'r cyfeiriadau at y rheoliadau.***

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau (Safon 23)

Roedd polisi cwynion ar gael ac roedd manylion y weithdrefn gwyno wedi eu cynnwys yn y datganiad o ddiben.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oeddent wedi derbyn unrhyw gŵyn ysgrifenedig nac ar lafar. Gwnaethom drafod yr angen i gofnodi cwynion ysgrifenedig a llafar os derbynnir rhai, er mwyn gallu rhoi sylw i unrhyw themâu neu broblemau cyffredin a nodir.

Rheoli cofnodion (Safon 20)

Gwelsom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel yn y gwasanaeth. Mae hyn oherwydd bod cofnodion papur yn cael eu cadw mewn cypyrddau ffeilio a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig eu bod yn cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Recriwtio i'r gweithlu ac arferion cyflogaeth (Safon 24)

Gan fod y gwasanaeth wedi'i gofrestru gyntaf gydag AGIC yn 2014, roedd y rheolwr cofrestredig a'r gweithredwr laser wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o fewn y tair blynedd diwethaf fel rhan o'u cofrestriad. Gwnaethom atgoffa'r gwasanaeth i sicrhau bod y rhain yn cael eu diweddarau bob tair blynedd.

Er nad oedd y gwasanaeth wedi cyflogi unrhyw staff newydd ar gyfer darparu triniaethau laser, gwelsom fod rhaglen sefydlu ar waith. Gwelsom hefyd fod templed arfarnu ar waith, ond dywedwyd wrthym nad oedd arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal. Mae arfarniadau'n bwysig er mwyn sicrhau bod y staff yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau cywir i gyflawni eu swyddi, a chanfod unrhyw anghenion hyfforddi.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid cynnal arfarniadau blynyddol ar gyfer y gweithredwr laser.

O ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn, mae angen gwella trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu'r gwasanaeth hwn i sicrhau cydymffurfiad parhaus â'r rheoliadau a safonau perthnasol.

Mae gweithredu trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu cadarn, ac ymateb prydlon gan y darparwr cofrestredig wrth ddatrys problemau, yn arwyddion pwysig o allu darparwr i redeg ei wasanaeth gyda gofal, cymhwysedd a medr digonol. Mae disgwyl, felly, i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn, gan y gallai methu â gwneud hynny arwain at gamau gweithredu gan AGIC am fethu â chydymffurfio â'r rheoliadau.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar gyfer Physical Graffiti. Gellir gweld manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y gwelliannau a nodwyd yn Physical Graffiti yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus.

Atodiad A

Cynllun Gwella

Gwasanaeth:

Physical Graffiti

Dyddiad yr Arolygiad:

26 Gorffennaf 2016

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
6	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod cleifion yn llofnodi pob ffurflen cydsyniad gwybodus.	Rheoliad 9 (4)	Sicrhau bod pob ffurflen yn cael ei llofnodi.	D. Walters	Ar unwaith
6	Dylid creu cofrestr o driniaethau, gan gynnwys manylion yr holl driniaethau a gyflawnwyd. Dylid cofnodi canlyniadau triniaethau, gan gynnwys unrhyw effeithiau niweidiol.	Rheoliad 23 (1) a 45 (2)	Cadw llyfr nodiadau o ddefnydd dyddiol yn cynnwys enwau, gosodiadau laser, nifer o saethiadau laser a chanlyniadau.	D. Walters	Ar unwaith
7	Rhaid diweddarau'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau.	Rheoliad 7	Diweddarau'r canllaw i gleifion.	D. Walters	Ar unwaith
7	Mae'n rhaid diweddarau'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau.	Rheoliad 6 (1) ac Atodlen 1	Diweddarau'r datganiad o ddiben ac anfon copi at AGIC.	D. Walters	Ar unwaith

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Rhaid anfon copi o'r datganiad o ddiben wedi'i ddiweddarau at AGIC.				
8	Rhaid rhoi system ar waith i geisio adborth rheolaidd gan gleifion.	Rheoliad 19 (2) (e) a 7 (e)	Rhoi ffurflenni adborth ar waith.	D. Walters	Ar unwaith
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
9	Rhaid i'r gweithredwr laser gwblhau hyfforddiant gwybodaeth graidd wedi'i ddiweddarau. Rhaid cadw'r holl gofnodion hyfforddiant, gan gynnwys unrhyw hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriant.	Rheoliad 45 (3) Safon 25	Ailwneud hyfforddiant ar wybodaeth graidd.	D. Walters	O fewn y tri mis nesaf (erbyn diwedd 2016)
9	Rhaid cael tystiolaeth bod y rheolau lleol a'r asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan y cynghorydd diogelu rhag laserau. Yn benodol, dylai'r rhain gael eu llofnodi a'u dyddio bob tro y cânt eu hadolygu.	Amodau cofrestru AGIC Rheoliad 15 (1), (2) ac 19 (1) (2) Safon 16	Y cynghorydd diogelu rhag laserau i ddarllen a llofnodi'r rheolau a'r asesiadau risg.	D. Walters	Ar ymweliad nesaf y cynghorydd diogelu rhag laserau a phob ymweliad wedi hynny
10	Rhaid cael prosesau cadarn ar waith er mwyn sicrhau lles a diogelwch oedolion sy'n agored i	Rheoliad 16 Safon 11	Nid oes gennym unrhyw oedolion sy'n agored i niwed yn y siop nac fel cwsmeriaid. Fodd bynnag, byddwn	C. Hatton / D. Walters	O fewn y chwe mis nesaf (erbyn

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	niwed a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys diweddaru polisïau diogelu a chwblhau hyfforddiant diogelu gan y rheolwr cofrestredig a'r gweithredwr laser.		ni'n ymgymryd â hyfforddiant ac yn diweddaru polisïau.		Mawrth 2017)
10	Rhaid cael trefniadau cadarn ar waith ar gyfer diogelwch tân, gan gynnwys asesiad risg tân cyfredol, ystyried arwyddion allanfeydd tân, a chwblhau ymarferion tân.	Rheoliad 15 (1), (2); 19 (1); 26 (5) (b)	Cwblhau'r asesiad risg tân a chofnodi driliau tân yn y dyddiadur.	C. Hatton / D. Walters	O fewn y mis nesaf
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
11	Mae angen y gwelliannau canlynol i bolisïau a gweithdrefnau: <ul style="list-style-type: none"> Dylid adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau Dylid teilwra polisïau ble y bo'n briodol i'w defnyddio yn y gwasanaeth Rhaid cywiro'r cyfeiriadau at y rheoliadau 	Rheoliad 9	Edrych ar y polisïau a'u haddasu fel y bo angen a chywiro geirdaon.	C. Hatton / D. Walters	O fewn mis (erbyn diwedd mis Tachwedd 2016)
12	Dylid cynnal arfarniadau blynyddol ar gyfer y gweithredwr laser.	Rheoliad 20 (2)	Cynnal arfarniadau.	C. Hatton	Bob blwyddyn,

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		Safon 25			gan ddechrau eleni

Cynrychiolydd y Gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): C. Hatton / D. Walters

Teitl: Rheolwr cofrestredig / Gweithredwr laser

Dyddiad: 21/10/2016